COVID-19 Update: 3rd April

In today's COVID-19 update from Cardiff Council: a reminder of the new free school meals provision starting on Monday; over 1,000 volunteers have registered on our Together For Cardiff website; Meals on Wheels makes a record number of deliveries; and Easter Bank Holiday waste collections.

Free School Meals

A reminder that Free School Meal provision will be changing to a voucher scheme from this Monday 6th, April and will be extended to cover what would have been the two week school Easter holiday period.

The new voucher scheme will replace the grab bag packed lunches which have been delivered to schools since Monday 23rd March.

Parents and carers of children currently receiving Free School Meals will be sent a downloadable voucher to the value of £40 for the benefit of their eligible child/children which can be spent in one of the following supermarkets:

- Tesco
- Asda
- Sainsbury's
- Morrisons
- Marks & Spencer
- Waitrose

Arrangements for Free School Meals following the Easter break will be communicated in due course.

The Council has successfully delivered 45,000 grab bags children to collect and takeaway to eat off site however the new scheme will assist measures in reducing social contact, as announced by UK Government.

Families who are eligible will receive a letter with details of the voucher directly from the Council, in the next few days.

Click here to view a copy of the letter:
http://app.prmax.co.uk/collateral/163969.pdf

To apply for Free School Meals, email Freeschoolmeals@cardiff.gov.uk

1,000 volunteers join Together for Cardiff

The Together for Cardiff volunteer force is now a 1,000-strong group of residents from across the city who have pledged to give their time and services to help people in need during the COVID-19 emergency.

In only two weeks, the scheme has been flooded with offers of support and assistance as the city gets to grips with the challenges presented by the Coronavirus crisis and seeks to ensure that vulnerable people are able to get the provisions and support they need at this difficult time.

Hosted on the Volunteer Cardiff website, Together for Cardiff acts as a brokering service, matching people who want to help with volunteering opportunities across the city. Those looking for support can also search for help in their local area on the site.

Many of these volunteers are supporting the work of council teams, to provide essential services for those in need during this difficult time.

Since launching on March 20, the scheme's web page has been visited more than 42,100 times and 1,026 individuals have now registered to do what they can to help others during the outbreak.

As well as the website, the Council's Adviceline has taken 2,181 calls from individuals who need of help to get essential items.

To join the Together for Cardiff scheme, visit www.volunteercardiff.co.uk or call 029 2087 1071.

Meals on Wheels deliver to the highest number of customers to date

Our Meals on Wheels Cardiff service is meeting increasing demand with more than 2,000 meals set to be delivered this week.

The frontline service continues to provide regular customers, who have difficulty cooking for various reasons, with a healthy and nutritious meal and due to the current Coronavirus crisis, more people are signing up to the service, which delivers right across the city.

Last week, Meals on Wheels reached a new milestone, achieving the highest number of active customers to date, due to new sign-ups and referrals.

The team will deliver more than 2,000 meals this week, with weekday deliveries peaking at around 300 per day. Weekends have also seen a spike and this weekend is set to be the busiest yet as more than 500 meals are due to be delivered on Saturday and Sunday.

Do you know someone who could benefit from receiving a healthy and nutritious meal delivered to their door?
Find out more here: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Social-Services-and-Wellbeing/Adults/meals-on-wheels/Pages/default.aspx

Easter Bank Holiday Waste and Recycling Collections

Your collection day will remain the same during Easter this year, but collection times may change so please ensure your waste is out by 6am.

Waste collection services will operate on both Good Friday (10 April) and Easter Monday (13 April).

Our refuse collectors will work across the Easter bank holidays to ensure the collection service continues.

Diweddariad COVID-19 – 3 Ebrill

Dyma'r crynodeb COVID-19 diweddaraf gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: nodyn i'ch atgoffa y bydd y ddarpariaeth Prydau Ysgol Am Ddim yn newid i gynllun talebau o'r dydd Llun yma; 1,000 o wirfoddolwyr yn ymuno â Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd; pryd ar Glud yn cyflenwi i'r nifer uchaf o gwsmeriaid hyd yn hyn; a casgliadau gwastraff ac ailgylchu Gwyliau Banc y Pasg.

Prydau Ysgol Am Ddim

Nodyn i'ch atgoffa y bydd y ddarpariaeth Prydau Ysgol Am Ddim yn newid i gynllun talebau o'r dydd Llun yma, 6 Ebrill ymlaen a chaiff ei ymestyn i gynnwys yr hyn a fyddai wedi bod yn gyfnod o bythefnos o wyliau Pasg i ysgolion.

Bydd y cynllun talebau newydd yn disodli'r pecynnau bachu bwyd a ddarparwyd i ysgolion ers dydd Llun 23 Mawrth.

Caiff rhieni a gofalwyr plant sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim ar hyn o bryd daleb y gellir ei lawrlwytho gwerth £40 er budd eu plentyn/plant cymwys, a gellir ei wario yn un o'r archfarchnadoedd canlynol:

- Tesco
- Asda
- Sainsbury's
- Morrisons
- Marks & Spencer
- Waitrose

Bydd y trefniadau ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim ar ôl toriad y Pasg yn cael eu cyfathrebu maes o law.

Mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddarparu 45,000 o fagiau bachu i'w casglu a'u cymryd i'w bwyta oddi ar y safle, ond bydd y cynllun newydd yn cynorthwyo mesurau i leihau cyswllt cymdeithasol, fel y cyhoeddodd Llywodraeth y DG.

Bydd teuluoedd cymwys yn derbyn llythyr gyda manylion y daleb yn uniongyrchol gan y Cyngor o fewn yr ychydig ddyddiau nesaf.

Cliciwch yma i weld copi o'r llythyr:
http://app.prmax.co.uk/collateral/163969.pdf

I wneud cais am Brydau Ysgol am Ddim, ebostiwch
Prydauysgolamddim@caerdydd.gov.uk

1,000 o wirfoddolwyr yn ymuno â Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd

Erbyn hyn, mae aelodaeth grŵp gwirfoddolwyr Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd yn cynnwys 1000 o breswylwyr o bob rhan o'r ddinas sydd wedi ymrwymo i neilltuo eu hamser a'u gwasanaethau i helpu pobl mewn angen yn ystod argyfwng COVID-19.

O fewn pythefnos yn unig, mae'r cynllun wedi derbyn llu o gynigion o gefnogaeth a chymorth wrth i'r ddinas fynd i'r afael â'r heriau a achosir gan argyfwng y coronafeirws ac mae'n ceisio sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn gallu cael y darpariaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Wedi'i chynnwys ar wefan Gwirfoddoli Caerdydd, mae Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd yn gweithredu fel gwasanaeth brocera, gan baru pobl a hoffai helpu â chyfleoedd gwirfoddoli ledled y ddinas. Gall y rhai sy'n chwilio am gymorth hefyd chwilio am help yn eu hardal leol ar y wefan.

Mae llawer o'r gwirfoddolwyr hyn yn cefnogi gwaith timau'r Cyngor, er mwyn darparu gwasanaethau hanfodol i'r rhai sydd mewn angen yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ers ei lansio ar 20 Mawrth, ymwelwyd â thudalen gwe'r cynllun dros 42,100 o weithiau ac mae 1,026 o unigolion bellach wedi cofrestru i wneud yr hyn a allant i helpu eraill yn ystod yr argyfwng.

Yn ogystal â'r wefan, mae Llinell Gyngor y Cyngor wedi derbyn 2,181 o alwadau gan unigolion y mae angen cymorth arnynt i gael eitemau hanfodol.

I ymuno â'r cynllun Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd, ewch
i www.gwirfoddolicaerdydd.co.uk neu ffoniwch 029 2087 1071

Pryd ar Glud yn cyflenwi i'r nifer uchaf o gwsmeriaid hyd yn hyn

Mae gwasanaeth Pryd ar Glud Caerdydd yn ateb galw cynyddol, gyda disgwyl y bydd dros 2,000 o brydau bwyd yn cael eu cyflenwi yr wythnos hon.

Mae'r gwasanaeth rheng flaen yn parhau i gynnig i gwsmeriaid rheolaidd sy'n ei chael yn anodd coginio am wahanol resymau, bryd iach a maethlon o fwyd ac oherwydd yr argyfwng Coronafeirws presennol, mae mwy o bobl yn cofrestru ar gyfer y gwasanaeth, sy'n cyflenwi ledled y ddinas.

Yr wythnos ddiwethaf, cyrhaeddodd Pryd ar Glud garreg filltir newydd, gan gyflenwi i'r nifer uchaf o gwsmeriaid hyd yma, a hynny yn sgil mwy o gofrestriadau ac atgyfeiriadau.

Bydd y tîm yn darparu dros 2,000 o brydau bwyd yr wythnos hon, gyda'r dosbarthu yn ystod yr wythnos yn cyrraedd uchafbwynt o ryw 300 y dydd. Mae'r penwythnosau hefyd wedi gweld cynnydd sydyn a'r disgwyl yw mai hwn fydd y prysuraf eto gan fod disgwyl i dros 500 o brydau gael eu dosbarthu ddydd Sadwrn a dydd Sul.

Ydych chi'n adnabod rhywun a allai elwa o gael pryd o fwyd iach a maethlon wedi ei ddanfon i garreg eu drws?
Cewch fwy o wybodaeth
yma: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Gwasanaethau-Cymdeithasol-a-Lles/Oedolion/pryd-ar-glud/Pages/default.aspx

Casgliadau gwastraff ac ailgylchu Gwyliau Banc y Pasg

Bydd eich diwrnod casglu yn parhau yn ôl yr arfer yn ystod y Pasg eleni, ond gall yr amseroedd casglu newid felly sicrhewch bod eich gwastraff allan erbyn 6am.

Bydd gwasanaethau casglu gwastraff yn gweithredu ar Ddydd Gwener (10 Ebrill) y Groglith a Dydd Llun y Pasg (13 Ebrill).

Bydd ein casglwyr sbwriel yn gweithio ar draws gwyliau banc y Pasg i sicrhau bod y gwasanaeth casglu yn parhau.